Newyddiadur yr Eglwys yng Nghymru

Y Llan

RHIFYN HYDREF - TACHWEDD 2010 • Pris: £1

YN Y RHIFYN HWN:


- O Lan i'r Llan - tud 2 a 3
- Ar y ffôn o'r ffin - tud 4
- Arhoswch Funud - tud 7
- Cofio Dewi Tomos - tud 8 a 9
- Diwedd Cyfnod - tud 16


# HER I HAU HADAU CHWYLDRO YNNI

Mae eglwysi'r Eglwys yng Nghymru wedi cael eu herio i gynorthwyo pob cymuned yng Nghymru i ddarparu ei hynni ei hun erbyn 2050.

*Peter Davies*

Mewn anerchiad i aelodau Corff Llywodraethol yr Eglwys yng Nghymru ddiwedd Medi, dywedodd Peter Davies, Comisiynydd Datblygu Cynaliadwy Cymru, fod angen gweithredu radical os yw Cymru i leihau ei tharth carbon o 80% a dyblu ei chyflenwad trydan erbyn 2020. Apeliodd ar eglwysi i chwyldroi'r modd y caiff y genedl ei hynni drwy annog prosiectau ynni ar lawr gwlad.

## Gweledigaeth

Amlinellodd ei weledigaeth o eglwysi'n cynorthwyo cymunedau i gyflenwi eu hanghenion ynni eu hunain drwy ddefnyddio tyrbinau bychain gwynt, golau haul a dŵr. "Y mae Cymru," meddai, "yn wynebu her enfawr o droi at gyflenwad ynni diogel, fforddiadwy ac isel o ran carbon dros y cyfnod hyd at 2050. Rhaid i ni leihau'n ddramatig y nwyon tŷ gwydr a gynhyrchir gan ein defnydd o ynni, a chydnabod hefyd bod bygythiadau gwirioneddol i ddiogelwch ac argaeledd y cyflenwad ynni dros y cyfnod hwnnw. Bydd yn rhaid i gyflymdra'r newid gynyddu'n ddramatig."

"Y mae hi'n hen bryd bellach i gymunedau ddarparu ynni adnewyddadwy iddynt eu hunain. Mae'n amlwg bod rôl i'r Llywodraeth mewn prosiectau ynni mawr, ond gellir hefyd fynd ati ar lawr gwlad i sicrhau cyflenwad ynni cynaliadwy. Yn awr mae cyfle gwirioneddol i unigolion, cymunedau a chymdogaethau ddod at ei gilydd i leihau'r defnydd o ynni a chynhyrchu eu hynni eu hunain.

"Gall yr Eglwys yng Nghymru chwarae rhan allweddol i ddatblygu'r atebion lleol hyn. Gall roi esiampl trwy leihau ei defnydd ei hun o ynni ac annog cynhyrchu ynni lleol."

## Cynaliadwy

Pleidleisiodd aelodau'r Corff Llywodraethol yn unfrydol o blaid galw ar lywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cynulliad Cymru i weithredu ar frys i sicrhau darparu cyflenwadau o ynni cynaliadwy, a galw hefyd ar holl aelodau'r Eglwys i leihau eu defnydd personol o ynni.

Dywedodd Esgob Abertawe ac Aberhonddu, y Gwir Barchedig John Davies, "Mae'r greadigaeth yn rhodd werthfawr i bawb, pa un ai a ydynt yn edrych arni o safbwynt crefyddol ai peidio. Ond rydym yn credu ei bod yn gyfrifoldeb ar yr Eglwys i annog pawb i wneud ei ran i sicrhau y rheolir yr adnoddau yr ydym yn eu rhannu yn ofalus ac mewn ffyrdd cynaliadwy, fel y byddant ar gael i'r genhedlaeth nesaf."

"Y mae ein heglwysi wrth galon y cymunedau lleol ac felly mewn sefyllfa dda i arwain neu ysbrydoli prosiectau a all gynhyrchu ynni adnewyddadwy i'w ddefnyddio gan y gymuned."

## Arwain

Yn barod, mae rhai o eglwysi'r Eglwys yng Nghymru wedi dangos y ffordd i blwyfi ar hyd a lled Cymru. Er enghraifft, caiff Eglwys Sant Joseff, Cwmaman, yng Nghwm Cynon ei hynni o 30 panel haul ar ei tho sy'n cynhyrchu digon o drydan ar gyfer yr adeilad, a ddefnyddir yn feunyddiol at weithgareddau plwyfol a chymunedol, gyda pheth ar ôl hefyd i'w werthu i'r grid gwladol.

# o lan i'r Llan

## *Esgobaeth* ABERTAWE AC ABERHONDDU

### Penodiadau

Mae'r Parchedig Paul Marc Winchester, sydd ar hyn o bryd yn offeiriad â gofal dros Landeilo Bertholau gyda Chapel Betws a Llanddewi Ysgyryd yn Esgobaeth Mynwy, wedi cael ei benodi'n ficer Brynmawr, lle bydd yn olynu'r Parchedig Richard Grey.

Mae'r Parchedig Martin Lloyd Cox, sydd ar hyn o bryd yn Rheithor ym mywoliaeth reithorol Monkton yn Esgobaeth Tyddewi, wedi cael ei benodi'n ficer Gorseinon, lle bydd yn olynu'r Parchedig Huw Mosford.

## *Esgobaeth* TYDDEWI

### Penodiadau

Mae'r Parchedig Ddr John Gillibrand, a oedd yn offeiriad mewn gofal ym mhlwyfi Llangeler gyda Phenboyr, wedi cael ei drwyddedu'n ficer y plwyfi hynny.

*John Gillibrand*

Mae'r Parchedig Peter Ratcliffe, a fu'n gurad ym mywoliaeth reithorol dwyrain Caerfyrddin, wedi cael ei benodi'n offeiriad â gofal dros Lanpumsaint gyda Llanllawddog.

Mae'r Parchedig Ann Howells, ficer Llanilar gyda Rhostie a Llangwyryfon gyda Llanfihangel Lledrod a Llanwnnws, wedi cael ei phenodi'n beriglor Llandybie, ac mae'r Parchedig Euryl Howells, a oedd yn ficer grŵp Bro Ystwyth a Mynach, wedi cael ei benodi'n Uwch Gaplan Bwrdd Iechyd Hywel Dda.

### Atgyweirio tŵr

Mae'n nodwedd sy'n cael ei gweld gan filoedd o dwristiaid bob blwyddyn wrth iddyn nhw ymweld â Sir Benfro , ond mae tŵr eglwys y Santes Fair, Begeli, wedi gweld dyddiau gwell. Gan hynny, mae ymgyrch godi arian fawr wedi cael ei lansio i sicrhau fod tŵr eglwys uchaf y sir yn aros ar ei draed.

Mae'r eglwys restredig gradd 2 yn gobeithio codi £100,000 er mwyn talu am atgyweiriadau hanfodol i'r tŵr a'r wal ddeheuol – y gwaith atgyweirio mawr cyntaf yn yr eglwys ers y 1880au.

Os oes gennych chi ddiddordeb mewn cynorthwyo'r ymgyrch, naill ai'n ariannol neu'n ymarferol, cysylltwch â'r Parchedig Sarah Geach ar 01834 812078.

*Ann ac Euryl Howells*

## *Esgobaeth* BANGOR

### Penodiadau

Penodwyd y Parchedig Ganon Andrew Carroll Jones, periglor Llanbedrog gyda Llannor gyda Llanengan a Llangïan, yn Archddiacon Meirionnydd. Cafodd ei sefydlu yn yr Eglwys Gadeiriol nos Iau 8 Hydref.

Mae'r Hybarch Meurig Llwyd, Archddiacon Bangor, wedi cael ei benodi'n Ficer Tîm ym Mywoliaeth Reithorol Bangor. Yn ymuno ag ef yn y fywoliaeth honno bydd y Parchedig Elizabeth Pearce, sydd wedi ei phenodi'n offeiriad mewn gofal llawn amser o'r fywoliaeth, a Carol Susan Butler Roberts, a drwyddedwyd yn gurad cynorthwyol yn y fywoliaeth.

Mae'r Parchedig Lynda Cowan wedi cael ei gosod yn beriglor Llandinam gyda Threfeglwys gyda Phenystrywaid, a'r Parchedig Alan Chiplin wedi cael ei gomisiynu'n ddeon bro Arwystli. Penodwyd y Parchedig Robert Townsend, periglor Llanberis, Llanrug a Llandinorwig, yn gyfarwyddwr addysg yr esgobaeth.

Yn yr eglwys Gadeiriol, penodwyd y Parchedig Philip Hughes, periglor Llanfairpwll gyda Phenmynydd gyda Llanedwen, yn bumed canon yn y cabidwl, a phenodwyd y Parchedig Ganon Tegid Roberts yn ganon trigiannol, gyda gofal penodol am weithgarwch Cymraeg yr eglwys gadeiriol.

## *Esgobaeth* LLANELWY

### Penodiadau

Mae dwy swydd wag wedi codi yn yr esgobaeth yn sgil penodiadau newydd, sydd â chysylltiadau Cymreig cryf. Mae Llanrwst yn safle pwysig yn hanes Cymru, gan fod arch Llewelyn Fawr yn yr eglwys. Mae gan Lanrhaeadr ym Mochnant gysylltiadau Cymreig cryf hefyd. Yno y cyfieithodd William Morgan y Beibl i'r Gymraeg. Mae Esgob Gregory felly'n credu'n gryf y dylid rhoi blaenoriaeth i siaradwyr Cymraeg wrth lenwi'r swyddi gweigion hyn.

Mae'n cydnabod ei bod yn her go

o lan i'r Llan

iawn ceisio dod o hyd i glerigwyr sy'n siarad Cymraeg, ond hoffai weld periglorion sy'n siarad Cymraeg yn y ddwy fywoliaeth hyn yn fawr. Os gwyddoch am unrhyw un a fyddai'n addas i un o'r swyddi hyn, byddai'n ddiolchgar pe byddech yn gallu tynnu eu sylw at y swyddi gweigion hyn a'u cyfeirio at yr Archddiacon Bernard neu Archddiacon John fel sy'n briodol.

Mae'n bleser hefyd gan yr Esgob gyhoeddi fod y Parchedig Jacqueline Carter wedi cael ei phenodi'n ficer Rhosllannerchrugog. Mae Jacqui yn ficer ym mywoliaeth reithorol Glynebwy yn esgobaeth Mynwy ar hyn o bryd. Pleser hefyd ganddo yw cyhoeddi fod y Parchedig Philip Chew wedi cael ei benodi'n ficer grŵp plwyfi Llanbedr Dyffryn Clwyd ac yn ddeon Bro Dyffryn Clwyd. Yn esgobaeth Blackburn y bu'n gweithio'n flaenorol

Mae Lynette Norman wedi cael ei phenodi'n offeiriad a gwarcheidwad cysegrfa Melangell ym Mhennant Melangell, a bydd yn dechrau ar ei gwaith newydd yn ystod y gwanwyn. Yn y flwyddyn newydd, bydd y Parchedig Edward Yendall yn dechrau ar ei fywoliaeth newydd yntau ym mhlwyfi Glyn Ceiriog. Bydd Trish Owens yn symud i Rosymedre fel curad cynorthwyol, Judith Prust yn symud i Ben-y-bont-fawr ac Esther Yates yn symud i gynorthwyo John Thelwell fel curad cynorthwyol Aberriw.

### Elusen y Bers

Gwahoddir ceisiadau am grantiau gan elusen y Bers, sy'n elusen fechan a weinyddir gan yr esgobaeth ac sy'n cynnig grantiau i hyd at ugain o ferched ifanc o'r esgobaeth sy'n dymuno cael cymorth gyda'u hastudiaethau. Mae'n rhaid i ymgeiswyr fod yn iau na 25 oed ac yn byw yn yr esgobaeth. Ceir rhagor o fanylion gan Karen Williams yn swyddfa'r Esgobaeth, drwy ffonio 01745 532587 neu anfon e-bost ati:

karenwilliams@churchinwales.org.uk

### Taith drwy'r Hen Destament

Mae Eglwys Fethodistaidd Wrecsam yn cynnal 'taith drwy'r Hen Destament' ddydd Sadwrn 11 Rhagfyr, rhwng 10 y bore a 4 y prynhawn. Bydd gofyn i chi ddod â chinio gyda chi, ond bydd diod ar gael yno. Ffoniwch y Parchedig Una McLean ar 01978 860877 am ragor o fanylion.

## *Esgobaeth* LLANDÂF

### Pen-blwydd organ Ewenni

Bu plwyfolion Ewenni'n defnyddio llyfrau gweddi a thaflenni emynau eu cyndeidiau Fictoraidd ddiwedd Hydref, mewn gwasanaeth i ddathlu 160 mlynedd ers adeiladu'r organ sydd bellach yn eu heglwys.

Mae organ Eglwys Priordy Ewenni ger Pen-y-bont ar Ogwr yn un o'r rhai hynaf yng Nghymru sy'n cael ei chwarae'n rheolaidd. Fe'i hadeiladwyd gan William Sweetland ym 1850, ac roedd y gwasanaeth hwyrol weddi ar gân nos Wener 21 Hydref hefyd yn coffau'r ffaith i Sweetland farw union ganrif yn ôl i'r noson honno.

Defnyddiwyd Llyfr Gweddi 1662 yn y gwasanaeth, sef y gyfrol a fyddai wedi bod yn gyfarwydd i'r rhai cyntaf a gafodd y fraint o glywed yr organ. Defnyddiwyd cerddoriaeth a gyfansoddwyd cyn 1850 yn y gwasanaeth, hefyd, gyda chôr eglwys y Santes Hilary a myfyrwyr Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru yn ymuno â nhw dan arweinyddiaeth Chris Mowat.

Er mai yn Ewenni y mae'r organ erbyn hyn, dyma drydydd cartref yr organ. Un o Gaerfaddon oedd Sweetland, ac adeiladodd yr organ yn wreiddiol ar gyfer gwasanaethau dyddiol gwŷr bonheddig Coleg Diwinyddol Wells. Symudwyd yr organ oddi yno i Gapel Mai Eglwys Gadeiriol Wells yn 1895, cyn iddi gael ei symud drachefn yn 1999 i gorff eglwys priordy Ewenni.

Roedd Sweetland yn 28 oed pan adeiladodd yr organ, ac erbyn iddo ymddeol yn 1902 roedd wedi adeiladu tua 300 o organau. Mae'r organ sydd bellach wedi cymryd ei lle yn Ewenni yn cyrraedd i lawr at GG, ac mae felly'n ddefnyddiol iawn i chwarae cerddoriaeth organ o'r ddeunawfed ganrif, gan fod llawer o'r gerddoriaeth honno'n methu cael ei chwarae'n gywir ar organau modern.

## *Esgobaeth* MYNWY

### Llongyfarch John Price

Mae John Price yn wyneb cyfarwydd iawn yn ardal Tredegar a rhannau uchaf Cwm Rhymni. Ac yntau bellach yn 73, ac yn geidwad eglwys Sant Dingat, y mae wedi gwasanaethu cenedlaethau o breswylwyr yn Nhredegar Newydd a Phillipstown. Bu hefyd yn gwasanaethu yn Eglwys Sant Paul, Abertyswg ac ym mhlwyf Bedwellte hefyd.

John sy'n gofalu am fanylion ymarferol gwasanaethau eglwys Sant Dingat, a bu o gymorth mawr i nifer o ficeriaid, gan ofalu fod popeth yn ei le ar gyfer priodasau di-rif a nifer fawr o angladdau. Drwy hyn, daeth yn wyneb cyfarwydd i bobl y plwyf ar rai o adegau hapusaf a thristaf eu bywydau.



*John Price*

Eleni, mae John wedi cyrraedd carreg filltir go bwysig, sef ei fod wedi gwasanaethu fel ceidwad am hanner canrif! I nodi'r achlysur, trefnodd aelodau'r eglwys ddathliad arbennig iawn, drwy gynnal gwasanaeth hwyrol weddi a bwffe yn dilyn hynny i ymhell dros gant o gyfeillion John. Mae gan offeiriaid a fu'n gysylltiedig â'r plwyf gymaint o feddwl ohono fel bod offeiriad o bedair esgobaeth o leiaf yn bresennol yn y gwasanaeth.

Yn yr hwyrol weddi, bu côr newydd ei sefydlu o blwyfi Bedwellte a Thredegar Newydd yn canu'r Nunc Dimittis i drefniant a luniwyd yn arbennig gan y curad, Heidi de Gruchy. Y gwestai gwadd oedd yr Esgob, ac fe'i gwelir yn y llun yn derbyn cyfrol yn arddull 'This is Your Life', a luniwyd gydag atgofion ei gyfeillion am ei waith caled dros y blynyddoedd.

# AR Y FFÔN O'R FFIN

## Cipolwg ar y byd drwy sbectol Glyn Morgan

Ar ôl ymddeol o'r fyddin bu un o'm meibion yng nghyfraith yn gweithio am gyfnod yn Cheltenham, yn y lle clustfeinio enwog. Ni chaem fel teulu wybod dim oll am yr hyn a wnâi a chan nad yw'n annaturiol bod â diddordeb yng ngwaith rhywun, yn enwedig aelod o'r teulu, caem hi braidd yn anodd dygymod â sefyllfa o'r fath. Gan hynny, pan dorrodd y newydd am farwolaeth Gareth Williams, ac yntau hefyd wedi bod yn gweithio yn y ganolfan glustfeinio, fe dalais fwy o sylw nag arfer. Fel y pwysleisiodd y teulu, ni wyddent hwythau chwaith beth wnâi'r dyn ifanc.

*GCHQ Cheltenham*

Fe dalais sylw fwy na'r arfer i'r stori am reswm arall, hefyd. Un prynhawn Sadwrn yn y gwanwyn ychydig i lawr y ffordd o'r tŷ yma gwnaeth gŵr ifanc amdano'i hun. Ni wyddai teulu hwnnw chwaith fawr ddim am yr hyn a wnâi ond ei fod yn gweithio yn y math o faes y gweithia rhai fel Gareth Williams ynddo. Ar y funud ni wyddys a oes unrhyw gysylltiad rhwng marwolaeth y gŵr ifanc o Fôn â'i waith, ac ni wyddys chwaith, hyd y gwn, a oedd cysylltiad rhwng marwolaeth y gŵr ifanc lleol â'i waith yntau. Mae cyfrinachedd llwyr yn hanfodol ym myd pobl fel y rhain ond cyfyd cwestiwn, a chwestiwn difrifol hefyd. A ydym yn gofyn gormod gan y bobl hyn? Mae'r math o fywyd a orfodir arnynt yn siŵr o fod yn faich aruthrol, baich na fuasai'r mwyafrif ohonom yn gallu ei ddwyn. Mae pobl y cysgodion, a dyna ydynt ar un ystyr, yn gorfod talu'n ddrud iawn am ein cadw ni'r gweddill yn ddiogel.

• • •

Pan oeddwn i'n ifanc fe gyfeirid at un dyn yn y pentref fel "conshi". Fel plentyn nid oedd gen i'r syniad lleiaf beth oedd ystyr y gair ond gwyddwn nad oedd yn air neis, er bod y conshi hwn yn gymeriad digon hynaws. Clywem hefyd yn blant am rywbeth a elwid "y blaid bach". Roedd y geiriau hyn hefyd yn cyfeirio at rywbeth atgas. Roedd conshi'n perthyn i'r blaid bach. Do, bu'n rhaid i John Ellis ddioddef gryn dipyn am fod yn conshi ac am berthyn i Blaid Cymru yng nghanol môr o Lafur. Am fod yn heddychwr a chenedlaetholwr. Un arall a ddioddefai gryn dipyn pan oedd yn blentyn, o achos heddychiaeth ei dad, oedd y diweddar Athro Bedwyr Lewis Jones. Cyfeiriai at hyn o bryd i'w gilydd mewn sgwrs, ac roedd yn amlwg i'r erlid gael cryn effaith arno.

Ddiwedd yr haf, bu farw un o heddychwyr mwyaf amlwg yr Eglwys yng Nghymru, sef y Canon Dewi Tomos. Er nad wyf heddychwr fy hun mae gen i barch i'r rhai sydd. Mae lle pwysig i'w tystiolaeth gadarn.

• • •

Mae, wrth gwrs, sawl peth a all roi enw drwg i ddyn. Fe gawsom ni fel teulu enw drwg unwaith, gan gae. Ie, cae. A bod yn fanwl gywir, gan yr hyn a wnaeth fy nhad a'm brawd a minnau yn y cae hwnnw. Dwi ddim yn siŵr pa flwyddyn oedd hi, 1946 o bosib, gan i ni gael haf arbennig o wlyb y flwyddyn honno.



Trigem yn un o'r tai cownsil, y tŷ pen, y drws nesaf i Richard Thomas a'i wraig. Tyddyn-wr oedd Richard ac roedd y gwair wedi cael ei dorri ers peth amser. O'r diwedd cafwyd ychydig ddyddiau o dywydd sych, tywydd digon da'n ddigon hir i'r gwair fod yn barod i'w gario – ond fod hynny ar y Sul. Dyna fy nhad, dyn eithriadol o gydnerth, yn mynd â ni'r hogiau efo fo i gludo'r gwair i ddiogelwch. Fel arfer bryd hynny byddai llawer o'r pentrefwyr o gwmpas y lle ar ôl bod yn y capel a'r eglwys. Wedi'r cyfan, doedd dim teledu i gadw pobl yn eu tai. Ond cadw o'r golwg wnaeth pawb y noson honno. Roedd y Morganiaid paganaidd yn torri'r Sabath! A'r diwrnod wedyn? Un o ddyddiau gwlypaf yr haf hwnnw. Do'n wir, fe roes yr hen gae gwair enw drwg i ni.



*Nant Peris*

Treuliasom ein gwyliau yn y pentref eleni. Roedd 'na dreialon cŵn defaid yno. Pan oeddwn yn fachgen arferwn ollwng y defaid ar ddiwrnodau o'r fath ar gyfer yr ymgeiswyr a chael y tâl anrhydeddus o bunt am ddiwrnod o waith digon caled. Eleni, cynhaliwyd y gystadleuaeth dros y Sul. Mynychais ar y diwrnod cyntaf, sef y Sadwrn. Ymhle y cynhelid y treialon hyn, meddech chi? Wel yn yr union gae a roes yr enw drwg i ni dros drigain mlynedd yn ôl. O, fel mae'r byd wedi newid, fel mae Cymru wedi newid.

• • •

Digwyddem fod ar ein gwyliau yno dros ddau Sul. Ar y cyntaf rhaid oedd stwffio i gegin fechan y tîm achub lleol i gael ein Cymun. Mae'r eglwys yn dal ar gau ar ôl bron i bedair blynedd, gan i rywbeth mawr fynd o'i le gyda'r gwaith atgyweirio. Edmygwn y modd y llwyddodd y rheithor i gynnal y gwasanaeth mewn amgylchiadau mor gyfyng. Ar yr ail Sul, aethom saith milltir oddi yno i eglwys arall yn y grŵp. Yr unig dro i mi fod yn yr eglwys honno o'r blaen oedd mewn angladd tristach na'r cyffredin. Roedd gan ein prifathro fab disglair, digon disglair i fynd i Gaergrawnt. Yn anffodus, dim ond ar ôl ychydig wythnosau yn y lle boddwyd Emrys yn yr afon Cam. Buont yn hir yn dod o hyd iddo, a chynhaliwyd yr angladd ryw chwe wythnos yn ddiweddarach.

Roeddwn yn tynnu ymlaen yn llawer gwell efo'r prifathro nag efo mwyafrif ei staff. A bod yn onest, credaf fy mod yn dipyn o ffefryn gan yr eglwyswr hwn, gan mai anghydffurfwyr oedd ei staff un ac oll! Dysgai Saesneg i ni, a chanddo ef y cefais y marc mwyaf mewn unrhyw arholiad erioed, gan gynnwys arholiadau Cymraeg! Coffa da a diolchgar amdano.

# Datganoli o fudd i grwpiau ffydd

Yn ôl yr Archesgob, mae cymunedau crefyddol yn elwa ar lywodraeth ddatganoledig yng Nghymru am ei bod yn dod â hwy yn nes at y broses o lunio polisi.

Ef oedd siaradwr gwadd cyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol ar Grefydd yn y Cynulliad ddechrau Hydref. Teitl y drafodaeth, a gadeiriwyd gan Darren Miller, AC, oedd 'A yw Datganoli yn beth da i Gymunedau Crefyddol yng Nghymru?'

Dywedodd yr Archesgob, "Yr hyn a olygodd datganoli yng Nghymru yw Llywodraeth sydd lawer yn nes, yn haws cysylltu â hi ac yn delio'n benodol â materion Cymreig. Y mae cymunedau crefyddol yn ymwneud llawer mwy â'r Llywodraeth nag o'r blaen, nid am eu bod yn dymuno cael breintiau arbennig ond am fod a wnelont â materion sydd o bwys i'n cymunedau a'n cenedl. Y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn sylweddoli bod cymuned grefyddol ym mhob un o gymunedau Cymru".

### Tebygrwydd

Cymharodd yr Archesgob ddatganoli â datgysylltu'r Eglwys yng Nghymru 90 mlynedd yn ôl.

Dywedodd, "Mae'r ffaith fod yr Eglwys yng Nghymru yn awr yn gwneud ei phenodiadau ei hun, bod ganddi ei litwrgi ei hun a'i bod yn eglwys ddwyieithog yn golygu ei bod wedi datblygu hunaniaeth Gymreig a pherthynas agosach â'r genedl. Y mae hyn oll, mi gredaf, yn debyg i lywodraeth ddatganoledig. Mae'r patrwm hwn o ddatganoli yn cyfoethogi'r synnwyr o le, pwrpas a pherthyn. Mae'n rhoi teimlad o hunaniaeth i'r genedl; mae'r agenda'n glir – ac agenda ydyw er lles Cymru".

Ychwanegodd fod datganoli yn beth da nid yn unig i gymunedau crefyddol ond i'r genedl gyfan. "Rwy'n credu," meddai, "i'r genedl gael ei chyfoethogi gan Lywodraeth ddatganoledig – y mae'n fwy hyderus ac aeddfed, datblygwyd hunaniaeth benodol Gymreig ac mae'n haws cysylltu â'r Llywodraeth".

Rhybuddiodd, fodd bynnag, fod y dull presennol o lunio cyfreithiau yng Nghymru yn ddiffygiol a diraddiol a galwodd am weithredu Rhan 4 Deddf Llywodraethu Cymru 2006. "Pe bai gennym y galluoedd iawn i lunio cyfreithiau," meddai, "gallem gael Llywodraeth symlach a mwy grymus ac effeithiol, a allai weithredu'n gyflym er lles Cymru ac osgoi gwrthdaro dianghenraid â San Steffan".

## Cofio Arglwydd Talgarth

Ganol Medi, bu farw'r Arglwydd Richard Livsey, cyn Aelod Seneddol Brycheiniog a Maesyfed. Roedd yn 75 oed, ac yn un o'r rhai mwyaf blaenllaw yn yr ymgyrch dros bleidlais 'ie' yn refferendwm y Cynulliad yn 1997. Cynrychiolodd ei etholaeth am un mlynedd ar ddeg yn San Steffan, a bu'n arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol yng Nghymru am wyth mlynedd.

Wrth dalu teyrnged iddo, dywedodd Esgob Abertawe ac Aberhonddu, y Gwir Barchedig John Davies, fod Cymru wedi colli gweithiwr caled, gonest a dyngarol. "Roedd Richard bob amser â diddordeb byw yng nghymunedau bro ei febyd.

Fel Aelod Seneddol, gofalodd am les ei etholwyr heb dynnu sylw ato'i hun, ond cyflawni ei waith yn dawel a phenderfynol, gan geisio sicrhau cyfiawnder i gymunedau gwledig.

Yr oedd eisiau i'r cymunedau hynny gael eu deall yn iawn, ac i Gymru gael ei deall yn iawn – eisiau iddi gael ei datganoli, ond ei hintegreiddio'n briodol i fywyd y Deyrnas Unedig."

"Yn lleol, roedd Richard bob amser yn barod i gefnogi unrhyw fenter oedd yn ceisio cynnal neu wella

bywydau ei etholwyr. Roeddwn i'n ddiolchgar iawn iddo am dderbyn gwahoddiad i ddod yn un o Islywyddion Apêl Gwaddol Côr Eglwys Gadeiriol Aberhonddu pan oeddwn i'n Ddeon yno."

Yn ei deyrnged yntau i Arglwydd Talgarth, dywedodd yr Archesgob fod Richard Livsey yn ddyn o flaen ei amser o ran gweld yr angen am lywodraeth ddatganoledig i Gymru. "Roedd yn aelod gweithgar o bwyllgor gweithredol Cymru Yfory, a chyfrannodd lawer iawn at waith y pwyllgor drwy ei ddoethineb a'i brofiad gwleidyddol, gan gynnwys ei allu a'i barodrwydd i drafod ag aelodau o bob plaid wleidyddol yn Nhŷ'r Arglwyddi."

## GWASANAETH CWPAN RYDER

Yn ystod wythnos Cwpan Ryder, bu'r Archesgob yn arwain gwasanaeth arbennig yn yr unig eglwys yng Nghymru sydd wedi'i lleoli ar gwrs golff.

Ag yntau'n hoff o chwarae golff ei hunan, roedd yn bleser gan yr Archesgob arwain y gwasanaeth yn eglwys fechan hynafol Sant Pedr ar gwrs golff St Pierre yng Nghas-gwent, a bu gorsaf Radio 4 y BBC recordio'r gwasanaeth ar gyfer ei ddarlledu ddydd Sul 26 Medi.

Ymysg y rhai eraill a fu'n cymryd rhan yn y gwasanaeth roedd y cyn chwaraewraig broffesiynol Kitrina Douglas, a fu'n chwarae yn y twrnamaint cyfatebol i ferched, Cwpan Solheim, yn 1992, a chyfarwyddwr Cymdeithas Golffwyr Cristnogol Cymru, y Parchedig John Hall.

Ar ddechrau'r gwasanaeth, dywedodd yr Archesgob ei fod yn gyfle i ddathlu cystadlaethau gwych fel Cwpan Ryder, a diolch i Dduw am ein gwneud ni'n bobl gyflawn – o ran corff, meddwl ac ysbryd. Yn debyg iawn i gêm o golff, mae byw'r bywyd Cristnogol yn gofyn am lawer o ymarfer, amynedd a dealltwriaeth o'r hyn sydd o'n cwmpas.

# Arhoswch Funud

gan LONA JONES

Mae pawb ohonom yn hoffi dod â rhywbeth adref gyda ni o'n gwyliau i'n hatgoffa o'r hwyl a gawsom. Gan amlaf, wrth reswm, mae'r hyn a ddeuwn yn ôl gyda ni yn dibynnu ar ein chwaeth a'n gallu ariannol ni, ond beth bynnag yw, y mae'n nodweddiadol o'r lle y treuliasom ein gwyliau mewn rhyw ffordd neu'i gilydd.

*David, Samantha a Florence Cameron*

Ychydig iawn ohonom sydd yn dod â baban bach adref gyda ni, ond dyna fu hanes Samantha Cameron a'i gŵr, David, oherwydd dychwelsant hwy gyda swfenîr na'i ceir yn aml iawn, ac un i'w drysori, sef merch fach. Enw'r ferch fach yw Florence Rose Endellion ac fe'i ganed yn ystod gwyliau'r teulu yng Nghernyw. Yn ddigon naturiol, cafodd yr hanes gryn dipyn o sylw yn y wasg, ond o ble cafodd Samantha a David Cameron enw'r fechan? Mae'n enw pur anaml, wedi'r cyfan.

## Enwau

Fe roedd Florence a Rose yn enwau poblogaidd iawn yn ystod oes Fictoria, ac y mae'r math hwn o enw bellach yn ffasiynol iawn. Mae'n bosibl mai enw teuluol yw Rose ond gall Florence, yn y cyd-destun hwn, fod wedi cael ei ddewis oherwydd hoffter David Cameron o grŵp o'r enw Florence and the Machine, ond, wedyn, efallai iddo enwi ei ferch fach ar ôl Florence Nightingale, a fu farw union ganrif yn ôl yn 1910. A gwyddys i rieni'r Florence honno enwi eu merched ar ôl y trefi y cenhedlwyd hwy ynddynt. Mae'r ddau enw yn enwau poblogaidd, ac o'r herwydd, mae'n anodd dweud dim amdanynt.

*Endellion*

Ond mae Endellion yn wahanol - mae'n enw sydd wedi ei wreiddio yn ddwfn yn naear Cernyw ac yn enw ag iddo gysylltiadau Celtaidd a Chymreig dihafal. Merch Brychan Brycheiniog oedd Endeliente (a rhoi iddi ei henw iawn), a chredai Sabine Baring Gould mai hi yw Cenhedlyn Achau'r Saint. Credir iddi ddilyn ei brawd, Nectan, i genhadu yng Nghernyw, a chredir ei bod yn ferch fedydd i'r brenin Arthur - chwedl a dyfodd, o bosibl, oherwydd cysylltiad ei brawd â Tintagel.

## Cernyw

Digon prin yw manylion ei buchedd. Yn ôl honno, roedd yn byw mewn lle o'r enw Trentey ac yn byw ar lefrith ei buwch a dŵr dwy ffynnon - dwy ffynnon sydd hyd heddiw yn cael eu cysylltu â hi. Mae'n debyg i'r fuwch dresmasu ar dir Arglwydd Trentey rhyw dro, ac iddo yntau ei lladd. Lladdodd Arthur yntau am ei drosedd, ond cadwodd Endellion ei bywyd o drugaredd. Y mae iddi feddrod yn yr eglwys, ond hawliwyd honno gan un o'r plwyfolion ganrifoedd yn ôl, a'i enw ef sydd arni bellach. Dethlir ei dydd gŵyl ar Ebrill y nawfed ar hugain.

Saif ei heglwys hyd heddiw ar y ffordd fawr i Wadebridge, ac mae'r adeilad yn dyddio o'r bymthegfed ganrif, ond gwyddys i hwn gael ei adeiladu ar seiliau adeilad cynt, oherwydd gwyddys i'r eglwys fod yn eglwys golegol ag iddi bedwar prebendari ers y drydedd ganrif ar ddeg, ffaith sydd ynddo ei hun yn dangos parch pobl at y santes. Mae i'r eglwys bedwar prebendari o hyd, oherwydd ni ddiddymwyd ei statws colegol yn 1545. Y mae un ohonynt yn ebrwyad Port Isaac, plwyf a ffurfiwyf o blwyf Endellion yn 1913 a lle sy'n gyfarwydd iawn i'r rhai ohonom sydd yn gwylio'r gyfres Doc Martin, oherwydd yn y pentref hwn y ffilmir y gyfres.

• • •

Fis yn ôl, bu'r Pab ac Archesgob Caergaint yn cyd-wasanaethu yn Abaty Caergaint. Thema eu cyfarfyddiad, hyd y gwelaf, oedd yr angen i gadw gwerthoedd Cristnogol yn ganolbwynt ein cymdeithasau. Ni allwn lai na meddwl a oedd dewis David a Samantha Cameron o enw i'w merch fach yn awgrymu eu bod yn gwneud hynny, ynteu yn ddim amgen na ffrwyth ymchwil am enw bach neis anghyffredin a fyddai hefyd yn eu hatgoffa o wyliau hapus mewn lle sydd yn amlwg iawn yn annwyl ganddynt

Cofiwch chi, mae gennyf ryw gymaint o gydymdeimlad â Florence Rose Endellion - nid yw'n hawdd byw ag enw anghyffredin, ond gall pawb eich cofio, beth bynnag eich hanes!



*Eglwys y Santes Endellion*

# COFIO'R CANON DEWI TOMOS

Fel y nodwyd yn rhifyn Medi *Y Llan*, bu farw'r Canon Dewi Tomos yn Ysbyty Bryngwyn, Llanelli, ar 28 Awst, ddiwrnod yn unig ar ôl marwolaeth ei briod annwyl Anna, yng Nghartref Melbourne House yn Cross Hands.

## Gyrfa

Roedd yn frodor o Lanfyrnach, Sir Benfro, ac fe dreuliodd ei weinidogaeth yn gyfan gwbl o fewn ffiniau Esgobaeth Tyddewi. Fe'i haddysgwyd yn Ysgol Ramadeg Aberteifi, ac yng Ngholeg Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan, lle graddiodd a mynd yn ei flaen i Goleg Mihangel Sant, Llandâf. Enillodd radd B.A. Prifysgol Cymru Aberystwyth yn 1963, ac wedyn aeth ymlaen i dderbyn M.A. yn 1967.

Ei guradiaeth gyntaf oedd ym mhentref Llansawel ym mhlwyf Caeo. Aeth o Lansawel i Gapel Dewi, plwyf Llandysul, cyn dod yn nes adref i fod yn ficer Clydau gyda Llanfyrnach. Mewn saith mlynedd fe'i penodwyd i fod yn ficer Llanfihangel Genau'r Glyn yng ngogledd Sir Aberteifi, lle bu am ddeuddeg mlynedd, cyn mynd yn ficer i blwyf glofaol Pontyberem yng Nghwm Gwendraeth. Ar ôl treulio deng mlynedd yno, fe fu am bum mlynedd olaf ei weinidogaeth yn Ficer Llanilar, Llangwyryfon a Lledrod, eto yng ngogledd Sir Aberteifi. Cafodd ei benodi yn Ganon Anrhydeddus Eglwys Gadeiriol Tyddewi yn 1983. Ymddeolodd ef a'i briod i Rydaman yn 1983, lle bu'n gweinidogaethu fel curad anrhydeddus am nifer fawr o flynyddoedd.

## Tangnefeddwr

Cafodd ei fagu ar aelwyd Capel Annibynnol Llwyn-yr-hwrdd, ond trodd at yr Eglwys pan oedd yn 17 oed. Apêl yr Eglwys iddo oedd ei litwrgi, ac fe ddaliodd i ddweud ei Foreol a'i Hwyrol Weddi hi bron tan y diwedd. Cafodd ei urddo'n ddiacon yn 1941 yn Nhyddewi, ond fe ohiriwyd ei wneud yn Offeiriad am y flwyddyn oherwydd ei ddaliadau heddychol; ni fedrai gydsynio â'r Erthyglau Crefydd yn eu cyfanrwydd, am fod un ohonynt yn cytuno â'r syniad o ryfel cyfiawn. Bu'n heddychwr ymroddedig trwy gydol ei oes. Bu'n gyn-lywydd Cymdeithas y Cymod yng Nghymru, yn aelod o'r APF, ac yn brotestiwr cyson dros heddwch – o'r amser y bu yn gwerthu 'Peace News' ar strydoedd Caerdydd yn ystod yr Ail Ryfel Byd i'r amser y bu'n protestio yn Abertawe yn erbyn ail ryfel Irac; bu'n llythyru yn gyson dros y blynyddoedd yn erbyn trais a rhyfel, a bu ei adroddiadau i'r *Llan* ynghylch gweithgareddau heddwch yn gyson dros y blynyddoedd.

Penderfynodd yn ifanc iawn mewn bywyd nad trwy drais na rhyfel y gellid ennill iawnderau dynol, ac nad dyna'r ffordd i hyrwyddo nac amddiffyn Teyrnas Dduw. Gwnaeth benderfyniad dros ddwy egwyddor arall yn gynnar mewn bywyd, a daliodd yn gadarn atynt, sef dros genedlaetholdeb a thros ddirwest. Bu'r drindod hon o heddychiaeth, cenedlaetholdeb a dirwest yn ddelweddau cyson yn fframwaith ei wasanaeth i'r Arglwydd Iesu a phobl Dduw. Dyma'r pethau y bu'n eu hyrwyddo gyda brwdfrydedd a thanbeidrwydd – ond eto gyda chwrteisi oedd mor nodweddiadol o'i gymeriad hoffus ac annwyl.

## Llenor

Bu ei weinidogaeth yn un gyfoethog ag amlochrog. Yr oedd yn llenor ac yn fardd; yn enillydd yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Cyfansoddodd nifer o emynau, a bu'n enillydd ar gyfansoddi emyn yn Eisteddfod Aberteifi – emyn yn seiliedig ar Litani'r Llyfr Gweddi; y mae emyn o'i waith, hefyd, yng Nghaneuon Ffydd. Cyhoeddodd nifer o lyfrau, gan gynnwys 'Pedair Pedol Arian', sef hanes ei daith ar gefn ceffyl drwy ganolbarth Cymru yn 1947. Cerddodd hen reilffordd y 'Cardi Bach' o Hendy Gwyn ar Daf i Aberteifi, gan gyhoeddi'r hanes yn 'Hynt y Sandalau'. Wedyn, fe fu taith gerdded fwy uchelgeisiol, sef ar drac hen reilffordd Caerfyrddin i Aberystwyth yn 1977; ffrwyth y daith honno oedd y gyfrol 'Wrth ymdaith'. Cyhoeddodd hanes ei flynyddoedd cynnar a hanes rhan helaeth o'i weinidogaeth yn y gyfrol 'Cysgodau'r Palmwydd'.

## Bugail

Fel bugail a phregethwr y Gair yr hoffai gael ei gofio; ac yn sicr felly y cofir amdano ym mhob man lle bu'n gweinidogaethu. Bu'n fugail gofalus i bob cynulleidfa a ymddiriedwyd i'w ofal. Yr oedd yn ymwelydd cyson, a mawr fu'r croeso iddo lle bynnag yr ai. Yr oedd pregethu a 'porthi'r praidd' yn anrhydedd yn ogystal ag yn gyfrifoldeb arbennig iddo. Soniai am baratoi ar gyfer y Sul fel cyfrifoldeb sanctaidd a phleser pur. Fu neb yn fwy gofalus wrth baratoi pregeth ag yntau, gan ddechrau ar y gwaith bob bore Llun. Bu ffrwyth y paratoi yna'n fwyd maethlon i gynulleidfaoedd ar hyd a lled Cymru dros ei flynyddoedd yn y weinidogaeth; ac fe fu pobl yn cofio am ei ymweliadau ac am ei neges am flynyddoedd wedyn.

Trwy gydol y blynyddoedd hynny bu'n ddyledus iawn i'w briod annwyl, Anna. Bu'r ddau ohonynt yn bartneriaeth hyfryd ym mhob un o'r plwyfi lle buont yn gwasanaethu, ac ni chofir am un heb feddwl am y llall gyda chryn gariad a diolchgarwch. Fe ddaeth eu taith ddaearol i ben, bron gyda'i gilydd, a bu'r angladd iddynt eu dau yn Eglwys yr Holl Saint, Rhydaman, a oedd yn orlawn. Tristwch mawr iddynt oedd claddu eu merch ieuengaf, Nona, dair blynedd yn ôl. Fe adewir tair o ferched, Llinos, Morfudd ac Eluned, a dau ŵyr, sef Rhodri a Dafydd, a chwaer, Wini. Y mae ein cydymdeimlad yn fawr â hwy fel teuluoedd.

Diolch am bob cof a erys amdanynt mewn llawer i fro yn Esgobaeth Tyddewi a thros Gymru gyfan.

*Canon John Gravell, Rhydaman*

# COFIO DAU ANNWYL

Mae bron ddeng mlynedd ar hugain wedi mynd heibio ers i'r Parchedig Ganon Dewi Tomos a'i briod Anna ymadael â phlwyf Llanilar wedi i Dewi ymddeol fel ficer ar blwyfi Llanilar, Lledrod a Llangwyryfon. Yn ddiweddar fe ddisgynnodd cwmwl o dristwch dros y plwyfolion a'u hadnabu wrth iddynt dderbyn y newydd fod y ddau wedi ein gadael, un ar ôl y llall. Ers rhai blynyddoedd roedd Anna'n dioddef o afiechyd creulon a amddifadodd hi o'r gallu i adnabod neb ond efallai ei theulu agosaf. Roedd iechyd Dewi, hefyd, wedi dirywio'n gyflym yn ystod misoedd olaf ei fywyd.

Partneriaeth glos a gweithgar fu gweinidogaeth y ddau yn y tri phlwyf rhwng 1976 a 1982, cans ni ellir llwyr wahanu cyfraniad un wrth gyfraniad y llall. Mewn sawl ystyr bu'r cyfnod byr hwn yn un euraid yn hanes y plwyfi. Fel un o breswylwyr plwyf Llanilar daw nifer o bethau i'r cof am y cyfnod. Fe ddarlledwyd dau wasanaeth o'r eglwys ar Radio Cymru. Trefnwyd gwasanaethau ar y cyd â chapel Carmel. Ail addurnwyd yr eglwys a neuadd yr eglwys. Gwnaed ymdrech hefyd i hyrwyddo agwedd gymdeithasol a diwylliannol y plwyf, a hynny ar y cyd â chymdeithas capel Carmel; cafwyd sawl noson ddiddorol, ddifyr ac weithiau digri. Fe roddodd Anna ei doniau cerddorol i ddefnydd da wrth gefnogi a chyfoethogi gwasanaethau'r Sul a chyfarfodydd cymdeithas yr eglwys.

Yr un mor bwysig â gwasanaethau'r Sul yn nhyb y ddau oedd yr ochr fugeiliol o'r weinidogaeth. Braf oedd gweld Dewi'n galw heibio os oedd rhywun yn sâl yn y teulu, neu os oedd rhywun wedi bod yn absennol o'r Foreol Weddi neu'r Hwyrol Weddi. I lawer o'r plwyfolion roedd y cyfraniadau yma yr un mor werthfawr ag unrhyw bregeth, beth bynnag oedd cywreindeb ei strwythur neu ei chynnwys diwinyddol. A sôn am bregethu, roedd 'na her yn aml ym mhregethau Dewi, cans yn ei dyb ef, nid rhywbeth neis-neis i'w hailadrodd o Sul i Sul yw'r Efengyl, ond her barhaol i gydymffurfio â bywyd ac esiampl yr Awdur.

Roedd yn ŵr o egwyddorion dwfn, diffuant, ac yn aml yn gwbl ddiymdroi. Eto, roedd hi'n bosibl i ddadlau gydag ef am ei ddaliadau, fel pasiffistiaeth a datganoli llywodraethol yng Nghymru, ac anghytuno heb iddo ddal dig oherwydd anghytundeb; hefyd, yn anaml y teimlai pobl yn ddig wrtho am gredu'r hyn yr oedd yn ei gredu, oherwydd gwyddent ei fod yn gwbl ddiffuant ei safiad.

Yn Rhydaman yr ymgartrefodd y ddau ar ôl ymddeol a mawr oedd y croeso i'w gyn-blwyfolion wrth iddynt alw heibio yn Stryd Marged. Pleser o'r radd eithaf oedd hel atgofion ac ailgreu peth o'r asbri a brofwyd pan oeddent yn ein plith. Fe gafodd yr Eglwys yng Nghymru weision dihafal yn Dewi ac Anna, y ddau yn ymgnawdoli'r eglwys wledig ar ei gorau. Mae dau olau mwyn wedi diffodd o'r hen fyd hwn wrth iddynt ymadael â ni. Eto yng nghof sawl plwyfolyn, mae'r atgofion am y ddau yn dal i lewyrchu gyda'r mwynder oedd yn nodweddiadol o'r ddau gymeriad hoffus yma.

*Gwynfor Rees, Llanilar*

## Er cof am Canon Dewi ac Anna Tomos

Collwyd cawr o fyd crefydd eleni,
Ysgolhaig o fri a'r ddawn i drosglwyddo
Neges ddiddorol a dealladwy.
Diddordebau lu yn allwedd iddo
Gyfathrebu â phob unigolyn,
Beth bynnag ei gefndir a'i dras,
A'i drin yn gydraddol ag ef ei hun.
Ei ymroddiadau dros heddwch yn fras,
Gweithiwr diflino dros iechyd yr iaith.
Anna hoffus iawn, a'i gwên wresog fu'n
Gadarn gefn iddo dros lwybrau'r daith.
Ysbrydoliaeth iddo ef a'r teulu.
Diolch i Dduw am y fraint o'u hadnabod,
Eu dylanwad diderfyn ni ddarfod.

*Catrin Norman, Rhydaman*

## EMYN Y BEIBL

Am blannu'r awydd gynt
am Feibl yn ein hiaith
a donio yn eu dydd
rai parod at y gwaith
o drosi'r gair i'n heniaith ni
diolchwn, a chlodforwn di.

Am ddycnwch rhai a fu
yn dysgu yn eu tro
yr anllythrennog rai
i'w ddarllen yn eu bro,
am eu dylanwad arnom ni
diolchwn, a chlodforwn di.

Am yr aneirif lu
a ddaeth drwy olau'r gair
i gredu yn y Gŵr
a aned yn fab Mair
ac a fu farw drosom ni
diolchwn, a chlodforwn di.

O planna ynom oll
sydd heddiw yma'n byw
yr awydd er ein lles
i ddarllen gair ein Duw:
am nad wyt fyddar fyth i'n cri
diolchwn, a chlodforwn di.

*Dewi Tomos*

## EMYN

Llawenhawn mewn tôn ac emyn
Byth wrth foli Mab y Dyn;
Seiniwn iddo ein caniadau
Mewn ffyddlondeb yn gytûn.

Llawenhawn am fôr a daear
A'u cynhaeaf rydd ein Duw;
Diolch am gael tystio beunydd
I'r trysorau gawn wrth fyw.

Llawenhawn am eiriau'r Beibl
Byth i'n rhoi ar lwybrau ffydd;
Diolch am y ddawn i'w darllen
A'u myfyrio nos a dydd.

Llawenhawn yn nerth y weddi
Sydd oruwch gobeithio byd;
Diolch am ystafell ddirgel
Lle cawn sgwrs â thi o hyd.

*Geraint W. Edwards*
*(Mechellfab)*

Y Llan – Newyddiadur yr Eglwys yng Nghymru 0

Y Llan – Newyddiadur yr Eglwys yng Nghymru 0

# MI GLYWAF DYNER LAIS

Mae'r Eglwys yng Nghymru wedi cyflwyno strategaeth pum mlynedd i holi ei haelodau a ydyn nhw'n cael eu "galw" i'r weinidogaeth ordeiniedig. Y nod, yn naturiol, yw recriwtio rhagor o glerigion i sicrhau fod yr Eglwys yn parhau i allu gwasanaethu cymunedau Cymru yn y dyfodol.

Ond sut beth yw hi i wisgo'r goler gron yng Nghymru heddiw? Dyma rai o brofiadau tri offeiriad ifanc yr Eglwys.

### David Morris

Pan ordeiniwyd David Morris yn eglwys gadeiriol Llandâf ym mis Mehefin, ef oedd offeiriad ieuengaf yr Eglwys yng Nghymru, ag yntau'n 24 oed. Ers hynny, y mae wedi dechrau gwasanaethu fel Curad Cynorthwyol ym mhlwyf Merthyr Tydfil. Fe'i magwyd yn y Cymer, ac aeth i Ysgol Gyfun y Porth.

Dywed David, "Mae'r goler gron yn parhau i fod yn symbol cyfarwydd i bobl, ac yn un sy'n denu llawer o sylw, pa un ai a ydyn nhw'n edrych yn syn arnoch chi ar y stryd fawr, yn dod i'r Eglwys am eu bod nhw angen arian, neu angen eich cyngor pan fydd bedydd, priodas neu angladd gerllaw. Mae'r goler yn ennyn ymateb da a drwg – mae pobl naill ai'n cael llond twll o ofn, neu'n ymlacio'n syth!"

"Gan nad ydw i'n briod, mae'n hawdd iawn gweithio'n ddi-baid, ac mae gwaith yn y plwyf yn gallu cymryd llawer iawn o'ch amser chi. Mae galw ar offeiriaid bob amser, ac mae'r ffôn yn gallu canu bob awr o'r diwrnod. Yn sicr mae bod yn offeiriad yn gofyn am aberth, ond mae'r eglwys yn denu pob math o bobl, ac mae'r amrywiaeth honno'n ysbrydoli rhywun yn fawr."

### Sarah Rogers

Un arall sy'n gwasanaethu yn y Cymoedd yw'r Parchedig Ddr Sarah Rogers, sy'n 37 oed ac sy'n gurad cynorthwyol yng Nghaerffili. Fe'i hordeiniwyd hithau'n offeiriad yn gynharach eleni.

"Cyn i mi gael fy ordeinio, roeddwn i'n warden mewn eglwys yng Nghaerdydd", meddai Sarah.

"Mae'n debyg mai'r profiadau a gefais i yno a'm hysbrydolodd i ofyn i'r Panel ystyried fy nghais i gael fy ordeinio. Roeddwn i'n fyfyriwr bryd hynny, yn brin o arian ac yn mynychu eglwys lle'r oedd y gynulleidfa'n newid yn gyson."

"Diolch i'r drefn, roedd gennym offeiriad oedd yn meddu ar weledigaeth, a thîm o leygwyr oedd yn barod am her. Buom yn dosbarthu taflenni, ac agorwyd corff yr eglwys drwy osod seddau symudol yno, fel y gallai'r Coleg Cerdd a Drama a sefydliadau eraill ddefnyddio'r adeilad fel lle i ymarfer a chynnal cyngherddau."

"Dwi'n credu'n gryf fod ein cymunedau ni angen yr eglwys o hyd. Pe na bai am un rheswm arall, mae'r eglwys yn cynnig 'cartref' i rai sydd ddim yn cael eu croesawu yn unman arall. Mae'r eglwys yn parhau i fod yn deulu, ac mae'n bodoli i groesawu'r rhai sy'n unig ac sydd ar goll. Yr her i ni heddiw yw dod o hyd i ffyrdd newydd o gysylltu â'r gymuned, sy'n aml yn golygu fod yn rhaid i'r eglwys adael yr adeilad a mynd at y bobl. Mae hynny hefyd yn golygu gwneud pethau ar ddyddiau eraill ac eithrio'r Sul."

### Trystan Owain Hughes

Un sydd eisoes wedi cael profiad o fod yn offeiriad plwyf ac yn offeiriad mewn sefydliad secwlar yw'r Parchedig Ddr Trystan Owain Hughes, ac mae yntau'n 37 oed. Ef yw Caplan yr Eglwys yng Nghymru ym Mhrifysgol Caerdydd, a bu'n gwasanaethu ym mhlwyfi'r Eglwys Newydd a Llanilltud Fawr cyn hynny.

"Ambell dro, mi gewch chi rai'n uchel eu cloch wrth weld y goler, ond fel arfer mi fydd hynny'n digwydd ar ôl iddyn nhw gael peint neu ddau!" meddai Trystan. "Fel arfer, anwybyddu neu chwerthin gyda nhw ydi'r peth gorau. Weithiau, mae pobl yn ffraeth iawn, ac mae'n debyg y bydden nhw'n ymateb i unrhyw lifrai mewn ffordd debyg. Dwi'n siŵr fod nyrsys yn clywed pethau llawer gwaeth nag ydw i'n eu clywed!"

"Mae 'na barch o hyd i'r hyn rydym yn ei wneud. Cofiwch chi, mi gewch chi'r cwestiynau rhyfeddaf, weithiau. Roeddwn i'n gwrando ar fy iPod un tro pan oeddwn i'n cerdded ar hyd y stryd. Daeth rhywun ataf ac ymddiheuro am darfu arnaf, ond roedd eisiau gwybod sut fath o gerddoriaeth oedd offeiriad yn ei hoffi. Yr ateb onest a roddais iddo oedd Depeche Mode, ac roedd o braidd yn syn wedi iddo glywed hynny, gan ddisgwyl y byddwn i'n dweud 'Bach' neu 'The Priests', o bosib. Diolchodd i mi, ac aeth ymlaen ar ei daith!"

"Mae cael eich ordeinio'n fraint ryfeddol, gan eich bod chi'n rhan o achlysuron mwyaf teimladwy bywyd. Yn aml iawn, chi ydi'r unig un ac eithrio'r teulu a'r ffrindiau agos sy'n bresennol ar yr achlysuron hynny. Mae cael eich ordeinio yn sicr yn newid eich bywyd, gan eich bod chi'n cyddeithio gyda phobl ar daith bywyd. Dwi'n cofio ymweld â chlaf a oedd yn dioddef yn sgil canser, ac arferai ddweud fod yr adegau pan oeddwn i'n galw yn codi ei hwyliau o yn ystod cyfnod anodd iawn. O edrych yn ôl, er hynny, dwi'n gwybod ei fod o wedi rhoi cymaint mwy i mi yn ystod misoedd olaf ei fywyd na'r ychydig y gallwn i ei gynnig iddo fo."

# POSAU

Wel, mae tymor y Diolchgarwch wedi bod ac wedi mynd i lawer ohonom, y cynhaeaf wedi ei gasglu, a chyfle erbyn hyn i aros yn y tŷ ger y tân wrth i'r dydd fyrhau. Gobeithio felly y bydd y golofn hon yn ffordd o'ch difyrru pan na fydd gwasanaeth na swper diolchgarwch am y cynhaeaf i'ch tynnu o'r tŷ, a phan na fydd fawr ddim ar y teledu na'r radio.

Yn y lle cyntaf, atebion rhifyn Medi, gan ddechrau gyda'r grid swdocw yn ôl yr arfer:

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 8 | 7 | 2 | 4 | 3 | 5 | 9 | 6 |
| 2 | 4 | 6 | 9 | 5 | 7 | 1 | 8 | 3 |
| 5 | 9 | 3 | 6 | 8 | 1 | 7 | 4 | 2 |
| 3 | 2 | 8 | 7 | 9 | 5 | 6 | 1 | 4 |
| 4 | 7 | 9 | 1 | 6 | 2 | 8 | 3 | 5 |
| 6 | 1 | 5 | 4 | 3 | 8 | 2 | 7 | 9 |
| 8 | 6 | 4 | 5 | 7 | 9 | 3 | 2 | 1 |
| 7 | 5 | 1 | 3 | 2 | 4 | 9 | 6 | 8 |
| 9 | 3 | 2 | 8 | 1 | 6 | 4 | 5 | 7 |

Gosodwyd deg cwestiwn yn ôl yr arfer, a dyma'r atebion. Yn gyntaf, ymerawdwr Japan rhwng 1926 a 1989 oedd Hirohito, a Swydd Efrog sy'n chwarae'r rhan fwyaf o'u gemau criced ar faes Headingley. Mae'r afon Daniwb (y clywsom sôn yn y cyfamser fod perygl iddi gael ei llygru) yn llifo i'r Môr Du ar ôl teithio drwy nifer o wledydd Ewrop, ac ateb cwestiwn 4 oedd C.S. Lewis – ef oedd yr awdur a greodd arwr o'r enw Aslan.

Corff llywodraethol Ynys Manaw yw'r Tynwald, ac ateb y chweched cwestiwn oedd mai Bonn oedd prifddinas Gorllewin yr Almaen cyn ailuno'r gorllewin a dwyrain. Ychydig i'r gogledd oddi yno oedd angen mynd i ganfod ateb cwestiwn 7, gan mai rhan o Ddenmarc yw ynys Zealand. Tymheredd arferol gwaed ar raddfa Celsius yw 36.9, neu 37 gradd i'r radd agosaf, a'r mamal talaf sy'n bodoli ar hyn o bryd yw'r jiráff. Yn olaf, y llythrennau CL oedd y Rhufeiniaid yn eu defnyddio i gyfleu 150.

Gan mai hwn fydd rhifyn olaf *Y Llan*, fe gewch chi'r atebion i'r cwestiynau canlynol ar dudalen 15.

Dyma nhw'r cwestiynau i chi, felly:

1. Yn ystod pa fis y cynhelir Sul y Tadau fel arfer?
2. Ac eithrio siwgr, beth yw cynhwysyn pennaf marsipán?
3. Beth fydd un sy'n chwarae'r ffidil neu'r feiolin yn ei wneud wrth chwarae *pizzicato*?
4. Beth oedd enw'r Almaenwr a gyfansoddodd yr opera Hansel a Gretel?
5. Ar stampiau pa wlad y byddech chi'n gweld yr enw 'Helvetia'?
6. Beth yw enw'r nwy a ddarganfuwyd yn 1898 ac a ddefnyddir mewn arwyddion llachar?
7. Beth yw ystyr yr ymadrodd Lladin 'mea culpa'?
8. Beth yw enw'r cymysgedd o blwm a thun a ddefnyddir i wneud llestri yfed?
9. Sawl adain sydd gan wenynen?
10. Beth mae seismograff yn ei gofnodi?

Ac yn olaf, y grid swdocw. Diolch o galon am eich cefnogaeth dros y pedair blynedd a aeth heibio ers i mi ymgymryd â'r olygyddiaeth.

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 4 | | | | | | 7 | |
| 3 | | | 4 | | 9 | | | 8 |
| 1 | | | | | | | | 2 |
| | | 1 | | 2 | | 3 | | |
| | 8 | | | | | | 2 | |
| | | 5 | | 6 | | 9 | | |
| 5 | | | | | | | | 7 |
| 9 | | | 3 | | 7 | | | 1 |
| | 2 | | | | | | 6 | |

## GAIR GAN Y GOLYGYDD

**Ymddiheuriadau fod rhifyn Hydref wedi mynd yn rhifyn Hydref a Thachwedd erbyn iddo eich cyrraedd. Cefais drafferthion technegol gyda'r darparwr e-bost ddiwedd Medi a dechrau Hydref, oedd yn golygu nad oedd trefn ar bethau tan ganol y mis. Mae'n bosibl fod rhai negeseuon wedi mynd ar goll yn y cyfamser, felly mae'n ddrwg gen i os bu i chi anfon neges a pheidio derbyn ateb yn ystod yr wythnosau diwethaf.**

**Ar nodyn arall, mae gennyf ambell gopi dros ben o rifynnau'r blynyddoedd diwethaf, felly cysylltwch â mi os hoffech chi lenwi bwlch yn eich casgliad.**

**Cofion caredig,**
**Huw Tegid Roberts, 23 Bro Ednyfed,**
**Llangefni, Ynys Môn LL77 7WA.**
**huwtegid@tiscali.co.uk**

# ADOLYGIAD

## Y Cylchoedd Perffaith

*ALED JONES WILLIAMS*

Gwasg y Bwthyn, £6.95




*– D. Enw*

# Ein Heglwys Ni

Tro i ogledd orllewin Ynys Món gawn ni'r tro hwn, ac i bentref enwog Valley, neu'r Fali, ger Caergybi. Crynhowyd yr hanes gan David M E Lindsay o ddeunydd gwreiddiol gan Miss Mary Lloyd Jones ac aelodau'r gynulleidfa.

Roedd dalgylch y Fali yn perthyn i blwyf Llanynghenedl yn wreiddiol, ac yr oedd gwasanaethau yn cael eu cynnal bob prynhawn yn Eglwys y Plwyf Llanynghenedlm a oedd 1½ milltir yn nes at y fam Eglwys yn Llanfachraeth, lle'r oedd y Rheithor yn byw. Wedi adeiladu'r rheilffordd sy'n pasio drwy y Fali, cynyddodd y boblogaeth yn agos ar yr Orsaf Rheilffordd, ac yr oedd yn bobl eglwysig yn cynnal gwasanaethau prynhawn yn 'Ystafell y Bwrdd', sef Ystafell yr Ynadon tu cefn i'r gwesty am tua 15 mlynedd. Am gyfnod, clerigwyr Caergybi oedd yn cymryd y gwasanaethau, hyd nes i benodiad gael ei wneud ar gyfer y trefniant dros dro hwn yn y Fali.

## Eglwys newydd

Erbyn 1885, roedd y lle yn Ystafell y Bwrdd wedi mynd yn rhy fychan, ac yn y cyd-destun hwn sefydlwyd pwyllgor i ystyried adeiladu eglwys yn y Fali. Syr Richard Buckeley a gyfrannodd y tir ar gyfer yr eglwys a'r rheithordy. Sefydlwyd rhestr tanysgrifiad a gafodd gefnogaeth dda, a phan gafwyd digon o gyfalaf rhoddwyd y contract adeiladu i Mr W Williams, Tanrefail, Caergybi am amcangyfrif o £1300. Agorodd yr eglwys ar 8 Ebrill 1888 gyda gwasanaeth cymun am 9.30 y bore, a gynhaliwyd gan Esgob Bangor. Am 11 i'r gloch, cafwyd gwasanaeth y boreol weddi, a methodd llawer â chael lle y tu mewn i'r eglwys, oherwydd y

*Ffenestr yr Allor*

tyrfaoedd. Dilynodd gwasanaeth Cyflwyno a Chysegru'r Fynwent, a pharhaodd gwasanaethau am y dydd efo'r Litani am 3 y prynhawn a'r Hwyrol Weddi am 6 o'r gloch. Cychwynnodd y gwasanaethau llawn y Sul canlynol. Adeiladwyd y rheithordy cyfagos cyn gynted ag yr oedd yr eglwys wedi ei chwblhau.

Roedd yn anodd cynnal cyfarfodydd Eglwys heb ystafell i gyfarfod ynddi, ond yn 1935 rhoddodd Richard Gardner ganiatâd i ddefnyddio adeilad dros y ffordd i'r Eglwys. Erbyn 1967, roedd yr adeilad hwn wedi mynd yn adfeilion, a bu'n rhaid ei dynnu i lawr. Yna penderfynodd y Rheithor ar y pryd, sef y Parchedig Trevor Jones, ynghyd â grŵp brwdfrydig o weithwyr, gynnal ffair bob blwyddyn i godi arian ar gyfer Ystafell Eglwys newydd. Rhoddwyd y tir gan Mrs Jean Owen, merch hynaf Mr Richard Gardner, ac agorwyd y Neuadd, yn Lôn Gardner Pendyffryn, y Fali ar 27 Hydref 1977. Mae'r neuadd newydd yn cael llawer o ddefnydd gan y Cylch Meithrin, Grŵp Chwist, a'r Rainbows, yn ogystal â'r swyddogaethau eglwysig cyffredin fel bo'r angen.

## Disgrifiad o'r Eglwys

Adeiladwyd yr Eglwys ar ffurf croes, ac fe'i seiliwyd ar fodel o Eglwys Llanbedrgoch. Mae'r ffenestri i gyd o wydr lliw, mae llwybr y gangell o farmor Ynys Môn, a'r fedyddfaen o alabastr. Mae'r credfwrdd mosäig mewn cilfach ar ochr ddeheuol y gangell, ac fel canolbwynt mae ynddo garreg lathredig a roddwyd gan yr Arglwydd Stanley o Benrhos. Mae'r Ffenestr Fawr, y tu ôl i'r allor, yn cynnwys llun o Sant Mihangel, y mae'r eglwys wedi ei henwi ar ei ôl. Mae mwyafrif o'r ffenestri lliw, heblaw un yr allor, o wahanol arlliwiau melyngoch a brown, gan fod yr Arglwydd Stanley o Alderney wedi troi at y ffydd Foslemaidd. Er gwaethaf hyn, ef oedd fwyaf blaenllaw wrth sefydlu a dodrefnu'r Eglwys.

Rhoddwyd y ffenestr Ogleddol yn y darn croes gan Miss Adeane o Benrhos er cof am ei ewythr, ac mae ynddi Arfbais Frenhinol a Choron Victoria, a oedd newydd ddathlu 50 mlynedd yn frenhines bryd hynny. Ar ochr ddeheuol y darn croes, gwelir ffenestr yn dangos llun y Santes Cecelia, nawddsant cerddoriaeth. Ar ochr ddeheuol y gangell, gwelir llun o 'Oleuni'r Byd' - rhodd gan deulu Gardner er cof am eu rhieni.

*parhad ar y dudalen nesaf*

# HWB I EGLWYSI HYNAFOL

Mae dyfodol rhai o eglwysi hanesyddol Cymru yn ymddangos ychydig yn fwy sicr yn dilyn penderfyniad y Llywodraeth i beidio â chael gwared ar gynllun grantiau gwerthfawr.

Yn ystod adolygiad Llywodraeth Prydain o'i gweithgareddau, cyhoeddwyd y byddai Cynllun Grant Addoldai Rhestredig yn parhau yn y flwyddyn ariannol nesaf. Dyma'r Cynllun sy'n galluogi eglwysi hanesyddol i hawlio treth yn ôl ar waith atgyweirio ac adfer, ac amcangyfrifir ei fod wedi arbed hyd at £5.3 miliwn i eglwysi'r Eglwys yng Nghymru dros y ddegawd ddiwethaf. Ystyrir y cynllun fel un pwysig iawn i ddiogelu dyfodol y mil a mwy o adeiladau rhestredig sydd gan yr Eglwys yng Nghymru, yn enwedig o ystyried y gallai'r adeiladau hynny fod angen gwerth £70 miliwn o atgyweiriadau yn ystod y pum mlynedd nesaf.

Wrth ymateb i'r newydd, dywedodd Alex Glanville, Pennaeth Gwasanaethau Eiddo'r Eglwys yng Nghymru, ei fod wrth ei fodd. "Mae hyn yn newyddion da iawn i gynulleidfaoedd sy'n cael anhawster i ofalu am addoldai rhestredig. Mae'r adeiladau hyn yn cael eu cynnal a'u cadw gan bobl leol, sy'n gorfod cyllido'r atgyweiriadau eu hunain. Mae plwyfi o'r fath yn enghreifftiau perffaith o'r 'Gymdeithas Fawr' yr ydym yn clywed y Llywodraeth yn sôn amdani mor aml. Mae'r penderfyniad hwn yn cydnabod y gwaith allweddol y mae cynulleidfaoedd yn ei wneud i ddiogelu eu treftadaeth leol."

Yr oedd rhywfaint o newydd drwg ynghlwm â'r cyhoeddiad, er hynny, gan fod y cynllun yn debyg o gael ei gwtogi, ac na fydd yn talu am atgyweirio cymaint o eitemau ag y bu'n ei wneud yn y gorffennol. Cyngor Alex Glanville, felly, yw bod plwyfi'n cyflwyno ceisiadau am waith ar yr eitemau hynny cyn mis Ionawr. "Gwaetha'r modd, os yw plwyfi'n bwriadu gwneud cais am arian am waith ar glociau, seddau, clychau, organau neu wasanaethau proffesiynol, ni fydd modd hawlio am y rhain yn y flwyddyn newydd."

Ceir rhagor o wybodaeth ar wefan Gymraeg y Cynllun:
http://lpwscheme.org.uk/windex.htm
neu drwy ffonio 0845 601 5945.
Y cyfeiriad post ydi:
Cynllun Grant Addoldai Rhestredig,
Blwch Postio 609,
Casnewydd NP10 8QD

*parhad o dudalen 12*

Mae'r pulpud o dderw a chanddo bum panel, gyda cherfiadau o'r Brenin Dafydd yn chwarae telyn, Sant Mihangel yn dal gwaywffon, Moses gyda'r Deg Gorchymyn, a chroes ar y ddau banel pen. Mae'r seddau i gyd o dderw yn ogystal. Mae sawl baner i'w gweld yno: hanes cryno y Fali gan y grŵp Teuluoedd Ifanc; un arall gan y Cubs a'r Guides, ac mae gan Undeb y

Mamau a Pathfinders hefyd faneri. Gwnaethpwyd yr holl glustogau penglin gan aelodau'r gynulleidfa.

Yn 1997, adeiladwyd y neuadd gyfarfod bresennol trwy roddion gan wahanol elusennau ac aelodau. Mae ynddo doiled i bobl anabl a chegin fechan sy'n ddefnyddiol i wneud te neu goffi.

*Mae gan yr eglwys wefan ardderchog, y gellir ei gweld drwy fynd i*

www.valley-parish.org.uk

*– Gol.*

*Un o'r eglwysi sydd wedi elwa ar y cynllun yn ystod y ddegawd ddiwethaf yw eglwys Sant Hywyn, Aberdaron.*

## "Bydd gyda mi"

Yn aml iawn, bydd carchardai yn rhan o newyddion y dydd, ac yn anffodus, mae'r darlun a gawn ohonyn nhw'n ddigon negyddol ar y cyfan. Sut mae Cristnogion yn ymateb i garchardai, a sut mae hynny'n berthnasol i'r Efengyl? Dyna fydd dan sylw bob blwyddyn yn ystod Wythnos y Carchardai, sy'n cael ei chynnal eleni rhwng 21 a 27 Tachwedd.

Sefydlwyd Wythnos y Carchardai i weddïo dros y rhai sy'n cael eu heffeithio gan garchardai, a chodi ymwybyddiaeth o'u sefyllfa.

Thema'r wythnos eleni yw "Bydd gyda mi", thema sy'n deillio o ymateb Iesu i'r lleidr edifeiriol ddydd Gwener y Groglith. Eleni, mae trefnwyr yr wythnos yn ein harwain ni at y Groes, lle rydym yn gweld erchyllter byd drylliedig yn cael ei oresgyn gan ryfeddod cariad Duw. Mewn man lle'r oedd unigedd ac arwahanrwydd yn ymddangos yn drech na phopeth, rydym yn clywed geiriau Iesu wrth y lleidr edifeiriol, "Yn wir, rwy'n dweud wrthyt, heddiw byddi gyda mi ym Mharadwys", geiriau a ddaeth â gobaith i un drylliedig.



Her thema eleni yw gweddïo a gweithio dros bob un y mae carchardai yn rhan o'u bywydau, a thros bawb sy'n ceisio trosglwyddo'r gobaith a'r sicrwydd hwnnw a drosglwyddwyd gyntaf oll gan Iesu, fel bod pawb yn ymateb i alwad Duw a gwybod am y fendith a ddaw o fod gydag ef.

Gellir llwytho adnoddau ar gyfer Wythnos y Carchardai o'u gwefan, www.prisonsweek.org sy'n cynnwys adnoddau astudio ac addoli wedi eu llunio gan ddioddefwyr, staff carchardai, carcharorion, teuluoedd, gwirfoddolwyr ac eraill yn y system gyfiawnder.

# HOMILI

### *"Onid yw Abana a Pharpar… yn well na holl ddyfroedd Israel?"*

*Yn seiliedig ar bregeth olaf y Parchedig Hywel Davies yn ystod ei gyfnod yn gofalu am Eglwys Dewi Sant, Caerdydd.*

Adroddir stori am fynach yn ymuno ag Urdd o fynachod oedd yn cadw'r rheol mudandod. Doedd dim siarad i fod yn y mynachdy hwn, ar wahân i ddau air yn unig bob pum mlynedd. Roedd y mynachdy hefyd yn un llwm a digysur, yn cynnig dim byd at esmwythyd corff. Beth bynnag, dyma'r mynach hwn yn mynd at yr Abad ar ôl pum mlynedd gan lefaru'r ddau air a ganiatawyd. "*Bwyd gwael*", meddai. Aeth pum mlynedd arall heibio, ac aeth i weld yr Abad eto, gan ddweud "*gwely caled*".

Wedi iddo fod yn y mynachdy am bymtheng mlynedd, aeth at yr Abad am y trydydd tro gan ddweud: "*dim merched!*". Ar ôl pum mlynedd arall, penderfynodd ei fod wedi dioddef digon. Aeth at yr Abad, a chan gadw at yr arfer o ddefnyddio dau air yn unig, meddai: "*Dwi'n mynd*". "*Ie, cer*" oedd ateb yr Abad, gan ychwanegu: "*dwyt ti wedi gwneud dim byd ond cwyno ers i ti gyrraedd yma!*".

Mae'r hanesyn digrif hwn yn awgrymu methiant y mynach i ddiolch am ei sefyllfa – ei fethiant i weld gwerth y ddisgyblaeth roedd ef ei hun wedi ei ddewis. Yr oedd wedi methu datblygu ffordd ddiolchgar o feddwl ynddo'i hun – hynny yw, y gallu i ddiolch am y pethau cyffredin, y pethau cyfarwydd, y pethau a gymerwn yn ganiataol bob dydd.

## Rhy bwysig i ddiolch?

Cymerwch hanes Naaman yn Ail Lyfr y Brenhinoedd. Dyma ddyn o bwys ym myddin brenin Syria, a oedd wedi arfer gorchymyn i hwn a'r llall wneud yn unol â'i ewyllys. Go brin fod Naaman wedi gorfod diolch i fawr neb yn ystod ei yrfa. Ond yn sydyn mae'n colli ei iechyd, ac mae'n argyfwng arno. Oherwydd ymyrraeth brenin Syria ar ei ran, mae Naaman yn cael ei hun yng ngwlad Israel, y tu allan i ddrws Eliseus. Mae hwnnw'n cadw pellter rhyngddo a Naaman oherwydd ei wahanglwyf - yn union fel y cododd y 10 gwahanglwyf eu lleisiau ar Iesu o bellter.

Ond nid neilltuolrwydd Eliseus sy'n digio Naaman.



*Y Deg Gwahanglwyf*

Geiriau Eliseus ato sy'n codi ei wrychyn. "Dos ac ymolchi saith waith yn yr Iorddonen" meddai'r proffwyd wrth Naaman. Roedd Naaman wedi disgwyl rhyw sioe fawr, rhyw ddigwyddiad dramatig, rhyw weithred fwy trawiadol nag ymolchi yn yr Iorddonen ddinod. "Onid yw Abana a Pharpar, afonydd Damascus, yn well na holl ddyfroedd Israel?" meddai.

Gan nad oedd Naaman wedi meithrin yr arfer o ddiolch, bu bron iddo golli ei gyfle. Yn ei brofiad ef, roedd anghenion bywyd yn ddibynnol ar orchymyn neu ar lwgrwobrwyo; anodd iawn oedd iddo dderbyn bod gras a gwyrth yn gallu llifo'n rhad o weithred gyffredin. Cyffredinolrwydd ymolchi yn yr Iorddonen sy'n ei gorddi, ac oni bai am gyngor ei weision, buasai Naaman wedi parhau i fod yn wahanglwyf.

## Cyffredinolrwydd

Dwi'n synhwyro'r un agwedd yn hanes y naw gwahanglwyf na ddaeth yn ôl i ddiolch i Iesu ar ôl iddyn nhw gael eu hiachau. Maen nhw i gyd yn cydnabod Iesu yn feistr ac yn erfyn am ei drugaredd. Ond nid o ganlyniad i ryw weithred ddramatig o flaen yr offeiriaid y daeth iachâd iddynt – ond wrth i'r deg fynd "ar eu ffordd." Efallai dyna pam na welodd naw ohonynt yn dda i ddychwelyd i roi diolch.

Doedden nhw ddim wedi disgwyl y byddai gras a gwyrth yn digwydd dan amgylchiadau mor gyffredin ac mewn ardal mor anaddawol yn "y wlad rhwng Samaria a Galilea." Dyma ardal a oedd yn fath ar dir neb, y byddai Iddewon yn prysuro trwyddo gan ei fod, yn eu tyb nhw, yn halogedig.

Beth am yr un gwahanglwyf a ddychwelodd? Dwi'n dychmygu ei fod wedi arfer mynegi ei ddyled am bob caredigrwydd. Wedi'r cyfan, roedd yn Samariad; yn estron ŵr - a hyd yn oed ymhlith y rhai eraill gwahanglwyfus, ef fyddai wedi bod ar waelod y domen. Ar drugaredd roedd yn byw, ac roedd ei lygaid yn graffach o'r herwydd.

## Gweithredu heddiw

Sut mae Duw yn gweithredu yn ein plith heddiw? Onid trwy bethau cyffredin o hyd? Pethau megis bara, gwin, dŵr ac unigolion cyffredin iawn fel chi a fi? Dyma'r deunydd crai y mae Duw yng Nghrist yn eu defnyddio yma yn Eglwys Dewi Sant, fel ym mhob eglwys arall. Ac wrth feithrin y ddawn i ddiolch, hyd yn oed dan amgylchiadau anodd, y gwelwn Dduw ar waith yn ein plith. Wrth fabwysiadu ffordd ddiolchgar o feddwl, y gwelwn fod gras a gwyrth yn dal i lifo atom.

# Dr Enid Pierce Roberts

Aeth tua 45 mlynedd heibio er pan oeddwn yn ddisgybl lefel A yn Ysgol Ardwyn, Aberystwyth yn astudio'r Gymraeg fel un o'm tri phwnc, a hynny wrth draed athro hynod o'r enw William Beynon Davies. Traethai hwnnw bob amser gydag awdurdod ac argyhoeddiad, gan ddyfynnu sylwadau gan amrywiol ysgolheigion – "mae hwn a hwn yn dweud ... ond hwn a hwn yn dweud fel arall" (am ryw bwnc llenyddol neu'i gilydd). Clywem fodd bynnag enw un ysgolhaig nad oedd, mae'n amlwg ym meddwl yr athro, rithyn o amheuaeth ynglŷn â'i hawdurdod. Y person hwnnw oedd Dr Enid Pierce Roberts, enw na olygai fawr ddim i mi ar y pryd, rhaid cyfaddef.

Tua 30 mlynedd yn ddiweddarach, fe'm gwahoddwyd i fod yn aelod o Isbwyllgor Drafftio Cyfansoddiad yr Eglwys yng Nghymru, lle cyfarfûm am y tro cyntaf â Dr Enid, gan ddod yn ymwybodol yn fuan o'i gwaith enfawr ar fersiwn Gymraeg y Cyfansoddiad dros gyfnod o flynyddoedd. Pwyllgor bychan – rhyw dri neu bedwar ohonom fel arfer – oedd yr un Cymraeg, a thrafod buan ar ôl y Pwyllgor Saesneg oedd y drefn yn amlach na pheidio. Dr Enid fyddai'n paratoi'r cyfieithiad Cymraeg, a byddai'n ymgynghori drwy lythyr neu alwad ffôn ar ôl y cyfarfodydd am ryw bwynt neu'i gilydd – a'r rheiny weithiau yn bwyntiau gramadegol neu gystrawennol! Synnwn at ei gwyleidd-dra yn hynny o beth, yn enwedig o gofio y gallai hi fod yn eithaf beirniadol weithiau wrth drafod ambell unigolyn nad oedd yn ei phlesio.

Dysgais gryn dipyn gan Dr Enid yn y pwyllgorau hynny, o ran teithi'r iaith ac ymadroddi cymen a glân, a sylweddolais rywfaint o'r hyn a awgrymwyd gan fy hen athro Cymraeg gynt. Cofiaf sôn wrthi am W. Beynon Davies ar ryw achlysur, a chael ymateb braidd yn amwys ganddi – hanner gwên a'r sylw "roedd gennych athro da iawn". Tybiwn fod yna ryw adnabyddiaeth rhyngddynt (a fuont yn gyd-fyfyrwyr, tybed?) Yn sicr, roedd yna edmygedd ar y naill ochr a'r llall, a theimlaf yn freintiedig i mi fedru elwa ar ddysg y ddau ohonynt.

Un o'r troeon diwethaf i mi weld Dr Enid oedd yng nghanol berw'r ddinas yng Nghaerdydd rai blynyddoedd yn ôl, a minnau wedi ei hebrwng o bencadlys yr Eglwys i ddal trên yn ôl i Fangor. Mynnai ddisgyn o'r car cyn cyrraedd yr orsaf, gan ddiflannu i ganol y llifeiriant trafnidiaeth, yn ffigwr eiddil ond penderfynol. Bu'r cysylltiad olaf rhyngom ym mis Tachwedd y llynedd pan anfonais air i'w llongyfarch ar ei hymddangosiad ar raglen 'Beti a'i phobol' ar Radio Cymru. Daeth ateb ganddi gyda'r troad bron, yn mynegi gwerthfawrogiad, ond gan ychwanegu'n ogleisiol "Ni chlywais i mo'r darllediad – yr oedd arnaf ormod o gywilydd"!

Diolchaf am gael adnabod y wraig ddi-flewyn-ar-dafod hon a fu mor eang a chyfoethog ei chyfraniad at fywyd yr Eglwys yng Nghymru yn ystod ei hoes faith.

*Y Parchedig Ganon Aled Williams,*
*Llanbedr Pont Steffan*

## Sue fydd Deon nesaf Bangor

Mae Esgob Bangor wedi gwahodd y Parchedig Ganon Dr Sue Jones, sydd ar hyn o bryd yn Ganon Trigiannol yn yr eglwys gadeiriol, i gymryd yr awenau pan fydd y Deon Alun Hawkins yn ymddeol yr haf nesaf.

Dywedodd yr Esgob, "Rwy'n hynod falch o ddweud ei bod wedi derbyn fy ngwahoddiad. Bydd y Parchedig Ganon Tegid Roberts yn dechrau ar ei waith fel Canon Trigiannol ochr yn ochr â Sue yn y flwyddyn newydd, a bydd y cyfnod hwn yn galluogi trosglwyddiad esmwyth o gyfrifoldeb, ac yn sicrhau na fydd y Cabidwl na'r eglwys gadeiriol heb arweiniad ar unrhyw amser yn 2011."

"Wrth gwrs, bydd cyfle maes o law i ni ddiolch i'r Deon Alun am ei gyfraniad mawr i fywyd yr esgobaeth, nid yn unig yn yr eglwys gadeiriol, ond trwy'r swyddogaethau a chyfrifoldebau eraill a ysgwyddodd yn ystod ei yrfa hefyd. Byddaf yn eich hysbysu o'r manylion yn nes at yr amser. Yn y cyfamser, dymunwn wellhad buan iddo yn dilyn llawdriniaeth, ac wrth gwrs, dymunwn yn dda i Sue."

Dr Sue Jones fydd y ferch gyntaf i fod yn Ddeon yn yr Eglwys yng Nghymru, yn dilyn penodi Peggy Jackson yn Archddiacon Llandaf llynedd a Shirley Griffiths yn Archddiacon Wrecsam yn gynharach eleni.

## SUL YR URDD 2010

Cynhelir y Sul arbennig hwn ddydd Sul, 21 Tachwedd eleni, a'r Parchedig Emlyn Dole o Bontyberem sydd wedi llunio'r gwasanaeth. Ar thema'r newid yn yr hinsawdd, paratôdd dair fersiwn o'r gwasanaeth - un ar gyfer plant oedran cynradd, un ar gyfer plant oedran uwchradd ac un ar gyfer defnydd ysgolion Sul, eglwysi a chapeli, a fydd yn cynnwys gweddïau, emynau a chyfuniad o'r gwasanaethau cynradd ac uwchradd. I gyd-fynd ag ymgyrch 'yr Urdd yn Wyrdd', penderfynwyd peidio argraffu llyfryn eleni, ond yn hytrach cynnwys y gwasanaeth ar wefan yr Urdd. Mae'r gwasanaeth ar gael i'w lwytho i lawr ar wefan y mudiad, sef www.urdd.org , a'r gobaith yw y bydd llawer o ganghennau'r Urdd, Ysgolion Sul, eglwysi a chapeli yn gwneud defnydd ohono.

Am ragor o fanylion, cysylltwch ag
Eurfyl Lewis,
Swyddfa'r Urdd,
Yr Hen Ysgol, Hermon,
Y Glog, Sir Benfro SA36 0DT
01239 832093 neu
eurfyl@urdd.org

## Atebion y posau

1. Mehefin
2. Cnau almon
3. Plycio'r tannau
4. Engelbert Humperdinck
5. Y Swistir
6. Neon
7. Fy mai i
8. Piwter
9. Pedair
10. Daear-grynfeydd

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 8 | 4 | 6 | 2 | 3 | 5 | 1 | 7 | 9 |
| 3 | 7 | 2 | 4 | 1 | 9 | 6 | 5 | 8 |
| 1 | 5 | 9 | 8 | 7 | 6 | 4 | 3 | 2 |
| 7 | 9 | 1 | 5 | 2 | 4 | 3 | 8 | 6 |
| 6 | 8 | 4 | 1 | 9 | 3 | 7 | 2 | 5 |
| 2 | 3 | 5 | 7 | 6 | 8 | 9 | 1 | 4 |
| 5 | 1 | 3 | 6 | 4 | 2 | 8 | 9 | 7 |
| 9 | 6 | 8 | 3 | 5 | 7 | 2 | 4 | 1 |
| 4 | 2 | 7 | 9 | 8 | 1 | 5 | 6 | 3 |

# DIWEDD CYFNOD

Fe ddefnyddiais y teitl uchod fel pennawd clawr rhifyn Medi, a hynny yn sgil marwolaeth Dr Enid Pierce Roberts, un a fu'n prawfddarllen proflenni'r *Llan* ers blynyddoedd, ymysg llu o gymwynasau eraill i weithgarwch Cymraeg yr Eglwys yng Nghymru. Ddeufis yn ddiweddarach, rwy'n ei ddefnyddio eto i gloi'r rhifyn diweddaraf hwn, gan ei fod yn nodi diwedd cyfnod i minnau hefyd - ac, fel mae'n ymddangos, i newyddiadur *Y Llan*.

Er i ni hysbysebu deirgwaith yn gwahodd rhai i ymgymryd â'r olygyddiaeth, ni lwyddwyd i benodi olynydd, a gyda hwn yr ail rifyn ers i mi ddweud y byddwn i'n rhoi gorau iddi, daeth yn bryd i mi gadw at y bwriad hwnnw. Er i mi gael trafferthion gyda'r cyfrifiadur ddechrau Hydref, y mae'r ffaith na chyrhaeddodd y rhifyn hwn yn brydlon wedi dangos yn glir i mi nad oedd modd i mi barhau i roi cymaint o fy amser hamdden i'r *Llan* erbyn hyn.

Y mae'n drueni mawr na lwyddwyd i benodi golygydd, ond eto nid yw'n syndod. Wrth i'r oriau roeddwn i'n gallu ei roi bob mis i'r *Llan* brinhau, prinhau hefyd wnaeth y cyfraniadau, a chydag ymadawiad Canon Dewi Tomos, collodd *Y Llan* un arall o'i chyfranwyr ffyddlonaf.

Gwn y bydd y newydd hwn yn siomi nifer o ddarllenwyr ffyddlon, ac mae fy niolch iddynt am eu cefnogaeth dros y blynyddoedd yn fawr iawn. Dros y pedair blynedd a aeth heibio, cefais gymorth parod gan griw bychan a fyddai'n cyfarfod bob mis ym Mangor, colofnwyr galluog a diwyd, ynghyd ag erthyglau ysbeidiol difyr gan rai o bob cwr o Gymru a thu hwnt. Fe gofiwch, rwy'n siŵr, i'r bwriad i sefydlu papur newydd dyddiol Cymraeg ddod i ben yn ystod y pedair blynedd hynny, ac arwydd o'r oes, efallai, yw bod rhagor yn defnyddio'r we erbyn hyn na'r rhai sy'n troi at dudalennau newyddiaduron fel *Y Llan*.

Yn sgil y ffaith na lwyddwyd i benodi golygydd, llwybr digidol yw'r un y mae'r Eglwys yng Nghymru wedi ei ddewis hefyd, ac yn fuan iawn bydd gwasanaeth newyddion dwyieithog yn cael ei lansio ar ei gwefan. Gwahoddir darllenwyr *Y Llan* i gyfrannu newyddion ac erthyglau i'r gwasanaeth newydd hwn yn ôl eu harfer.

Wrth i mi'n bersonol ffarwelio â chyfnodolyn a fu'n rhan mor fawr o'm bywyd i dros y ddegawd ddiwethaf, carwn ddiolch i bawb am eu cefnogaeth, a dymuno'n dda i'r fenter newydd. Na foed i ni adael i'r baich o sicrhau ei llwyddiant fel gwasanaeth newyddion dwyieithog ddisgyn ar ysgwyddau'r ychydig rai, fel y digwyddodd gyda'r *Llan*. Dyna fu problem cyfnodolion Cymraeg yr eglwys erioed, fel y gwn o'm hastudiaethau yn y coleg. Fe'ch gadawaf gyda geiriau gan yr Archesgob, sy'n dweud rhagor am y gwasanaeth newydd.

"Ers nifer o flynyddoedd erbyn hyn, *Y Llan* fu unig gyhoeddiad taleithiol rheolaidd yr Eglwys yng Nghymru, ac rydym wedi bod yn falch o'r ffaith ein bod ni wedi gallu ei gyhoeddi yn y Gymraeg cyhyd. Rydym hefyd yn ddiolchgar iawn i'r rhai a roddodd gymaint o amser ac ymdrech i'w baratoi o fis i fis. Gwaetha'r modd, mae wedi dod i ben gan na chafwyd diddordeb pendant mewn ymgymryd â gwaith y golygydd.

"Mae hwn hefyd yn gyfle, er hynny, i symud gyda'r oes a buddsoddi mewn cylchlythyr dwyieithog ar-lein y gall unrhyw un gofrestru i'w dderbyn drwy fynd i wefan yr Eglwys yng Nghymru. Er na fydd mor gynhwysfawr â'r *Llan*, rydym yn gobeithio y bydd y gwasanaeth hwn yn galluogi rhagor o bobl i wybod beth sy'n digwydd yn yr Eglwys mewn ffordd syml ac yn rhad ac am ddim. Rydym hefyd eisiau annog pobl i anfon newyddion neu erthyglau yn y Gymraeg fel y gellir eu cynnwys yn y cylchlythyr hwn. Dylid anfon pob cyfraniad i'r cyfeiriad e-bost canlynol:

news@churchinwales.org.uk

Gobeithiwn y bydd gwasanaeth newydd hwn o ddiddordeb i chi, a diolchwn i chi am eich cefnogaeth i'r *Llan* dros y blynyddoedd."

Os hoffech chi danysgrifio i'r cylchlythyr newydd, ewch i: **http://www.churchinwales.org.uk/commsupdate** a rhowch eich enw a'ch cyfeiriad e-bost ar y ffurflen sydd i'w gweld ar yr ochr chwith. Gellir gweld y cylchlythyr diweddaraf ar y dudalen hon. Anfonir negeseuon e-bost atoch yn awtomatig o hynny ymlaen. Ni fydd eich enw na'ch cyfeiriad e-bost yn weladwy, ac ni all unrhyw un arall sy'n defnyddio'r wefan gael gafael ar eich manylion.

**Canolfan Gyhoeddiadau'r Eglwys yng Nghymru, 39 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9XF.**
**Ffôn: 029 2034 8200. e-bost:publications@churchinwales.org.uk**